north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
# 15 TACHWEDD, 2019

**TEITL:** *Ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol*

**AWDURON:** *Andrew Farrow, Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Cyngor Sir y Fflint*
*Graham Boase, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Cylch Cyhoeddus, Cyngor Sir Ddinbych*

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) drafft sydd wedi'i gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru a chytuno ar gynnwys yr ymateb ar ran y Bwrdd Uchelgais i'r ymgynghoriad sy'n dod i ben ar 15 Tachwedd 2019.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Diwygio/cadarnhau'r ymateb i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fel sydd wedi'i amlinellu yn ***Atodiad 2***, i gynnwys unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y cyfarfod hwn o'r Bwrdd Uchelgais a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 18 Tachwedd 2019.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Bydd y FfDC yn hanfodol i bennu ymhle bydd datblygiadau'n digwydd o fewn y rhanbarth. Felly, mae hi'n hanfodol bod y FfDC yn adlewyrchu'n gywir amcanion Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, y Strategaeth Uchelgais Economaidd Rhanbarthol sydd wedi'i mabwysiadu a'r Cynllun Twf sydd ar ddod.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 4.1. Cyflwyniad

4.1.1 Bydd y FfDC yn gynllun datblygu cenedlaethol newydd a fydd yn gosod cyfeiriad lefel uchel, strategol ar gyfer datblygu yng Nghymru o 2020 hyd 2040 a bydd yn disodli'r Cynllun Gofodol Cymru presennol. Pwrpas y FfDC fydd gyrru twf cynaliadwy a brwydro'n erbyn newid hinsawdd drwy arwain datblygiad strategol dros yr ugain mlynedd nesaf. Gwna hyn drwy osod y strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system cynllunio, yn cynnwys cynnal a datblygu economi bywiog, datgarboneiddio, datblygu ecosystemau gwydn a gwella iechyd a llesiant cymunedau. Yn ogystal, bydd yn adnabod ardaloedd daearyddol eang lle dylem fod yn buddsoddi mewn isadeiledd newydd ac annog datblygiad economaidd er lles cyffredinol Cymru.

4.1.2 Y FfDC fydd yr haen uchaf o gynllun datblygu yng Nghymru, felly, mae'n canolbwyntio ar faterion a heriau ar raddfa genedlaethol. Oherwydd ei natur strategol, nid yw'n clustnodi ardaloedd penodol o dir ar gyfer datblygu ac nid yw'n cynnwys polisïau defnydd tir manwl. Mae'n fframwaith y dylid ei ddefnyddio fel sail i Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) ar y lefel ranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) ar y lefel Awdurdod Lleol (h.y. amcan Llywodraeth Cymru yw cael tair haen o gynllun datblygu; Cenedlaethol - FfDC; Rhanbarthol - CDS; Lleol - CDLl). Rôl y CDLlau

yw dadansoddi'r FfDC a'r CDSau, gan ffurfio polisïau defnydd tir perthnasol a dynodi safleoedd ar gyfer datblygu mewn ymateb i gyfeiriad strategol cyffredinol y cynlluniau datblygu haen uwch. Mae'r FfDC yn nodi'n glir y dylai penderfyniadau ynghylch graddfa a lleoliad twf mewn aneddiadau unigol gael eu gwneud o fewn CDLlau.

4.1.3 Mae cyfnod ymgynghori'r FfDC yn dod i ben ar 15 Tachwedd a chaiff unrhyw sylwadau eu hystyried gan drefniadau craffu Llywodraeth Cymru rhwng mis Mai a mis Mehefin 2020. Yna, bwriad Llywodraeth Cymru yw mabwysiadu'r FfDC yn yr hydref 2020. Drwy ymateb i'r ymgynghoriad hwn, mae'r Bwrdd Uchelgais yn cadw'r opsiwn o gyfrannu at drefniadau craffu Llywodraeth Cymru.

4.1.4 Mae un-ar-ddeg canlyniad y mae'r FfDC yn bwriadu eu cyflawni dros yr ugain mlynedd nesaf.

Cymru lle mae pobl yn byw....

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau
3. mewn rhanbarthau nodedig sy’n mynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd cymdeithasol drwy dwf cynaliadwy
4. mewn lleoedd lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy’n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o’r radd flaenaf
9. mewn lleoedd sy’n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig
11. mewn lleoedd sydd wedi’u datgarboneiddio

4.1.5 Mae'r un-ar-ddeg canlyniad yn uchelgeisiau cyffredinol sy’n seiliedig ar yr egwyddorion cynllunio cenedlaethol a’r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

## 4.2. Strategaethau a Dewisiadau Gofodol y FfDC

4.2.1 Mae'r FfDC yn adnabod yn fras lle dylai newid ar raddfa fawr a datblygiadau o bwys cenedlaethol gael eu canolbwyntio dros yr ugain mlynedd nesaf. Mae tair cydran i'r Strategaeth Ofodol ac mae'n amlinellu'r hyn a ganlyn:

- Ymhle yng Nghymru dylid canolbwyntio twf;
- Sut dylai twf gael ei gynllunio a'i reoli; a
- Sut dylem bweru a chynhesu lleoedd gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwres rhanbarthol;
- Mae tri phrif glwstwr trefol yng Nghymru sydd, yn hanesyddol, wedi denu pobl i fyw a gweithio ynddynt yn sgil y diwydiannau sydd wedi'u lleoli yno, sy'n cynnwys:
  - Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd
  - Bae Abertawe a Llanelli
  - **Wrecsam a Glannau Dyfrdwy**

4.2.2 Mae'r FfDC yn adnabod y rhain fel ardaloedd nodedig yn economaidd sy'n cefnogi ystod o fusnesau a mentrau. Maent yn bwysig i'r economi yng Nghymru, felly, nod y FfDC yw hyrwyddo eu twf a'u hadfywiad parhaus drwy ganolbwyntio cyfleoedd cyflogaeth ar raddfa fawr a thwf tai **yn bennaf** yn yr ardaloedd hyn. Y tu allan i'r ardaloedd hyn, mae nifer o ganolfannau rhanbarthol pwysig

wedi'u hadnabod a ddylai geisio cadw a gwella eu sail gwasanaeth masnachol a chyhoeddus drwy eu CDSau a'u CDLlau perthnasol, a'r ardaloedd rhanbarthol hyn yw:

- Caerfyrddin
- Trefi Hafan Sir Benfro
- Aberystwyth
- Llandrindod
- Y Drenewydd
- **Caernarfon**
- **Bangor**
- **Trefi arfordirol o Landudno i Brestatyn**

4.2.3 Yn ogystal, mae'r FfDC yn nodi 33 pholisi i arwain y gwaith o baratoi CDSau a CDLlau ledled Cymru. Ni fydd yr holl bolisïau o fewn y FfDC yn berthnasol i Ogledd Cymru gan fod rhai yn ymwneud â rhanbarthau'r De.

**4.3. Sylwadau cyffredinol ar y FfDC**

4.3.1 Mae'r FfDC wedi'i gynhyrchu mewn arddull gryno ac mae'n adlewyrchu pa mor gyflym y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen i fabwysiadu'r ddogfen (h.y. 12 mis o nawr). Er y croesewir yr egwyddor o FfDC sy'n canolbwyntio'n fwy ar gynllunio a datblygu, fel olynydd i Gynllun Gofodol Cymru, ar hyn o bryd mae'r FfDC drafft yn cynrychioli cyfres o fwriadau polisi lefel uchel, cadarnhaol Llywodraeth Cymru, y mae rhai ohonynt wedi'u portreadu mewn modd gofodol.

4.3.2 O gofio'r diffyg datblygu CDSau yng Nghymru hyd yma, mae'r FfDC yn gyfle i Lywodraeth Cymru orfodi rhanbarthau i gynhyrchu CDSau gan ddarparu cyfarwyddyd clir ynghylch yr hyn a ddisgwylir o gynlluniau o'r fath, ynghyd â sut a pha berthynas ddylai fod rhwng y FfDC, CDSau a CDLlau fel ystyriaethau perthnasol wrth arwain ar faint o ddatblygu sy'n digwydd ac ymhle.

4.3.3 O ystyried pa mor fyr yw'r FfDC drafft, nid yw'n glir ymhle y mae'r dystiolaeth i gefnogi'r uchelgeisiau polisi sydd wedi'u hamlinellu o'i fewn. Yn benodol, nid yw'n sicr ymhle y mae'r dystiolaeth ar gyfer pa mor hyfyw a pha mor gyflawnadwy yw'r cynigion polisi a fyddai'n darparu eu cadernid - prawf y mae CDLlau yn cael eu harchwilio yn ei erbyn.

4.3.4 Er enghraifft, mae defnyddio ffigyrau angen am dai yn y FfDC yn ddryslyd o ystyried nad yw'r ffigyrau hyn yn berthnasol i'r ffigyrau gofynion tai mewn CDLlau. Ymddengys mai rhagfynegiadau yn unig ydynt o dwf tai yn seiliedig ar fodelu sydd wedi'i wneud mewn llefydd eraill ac sydd bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Cymru. I ddechrau, ymddengys bod y ffigyrau cyffredinol hyn yn isel a heb uchelgais, sy'n gwrth-ddweud sawl maes polisi arall yn y FfDC sy'n hyrwyddo ardaloedd twf a ffyniant economaidd.

4.3.5 Hefyd, dylai'r FfDC osod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau a wneir ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ond eto nid yw'n dweud dim am y berthynas hon. Hefyd, ymddengys bod diffyg cyfeiriad at ddarparu seilwaith digonol i dderbyn twf mewn ardaloedd allweddol, ynghyd â'r mecanweithiau a'r rhyngweithiadau gyda rhanddeiliaid a darparwyr allweddol sy'n angenrheidiol er mwyn cydlynu twf. Drwy nodi seilwaith digonol i dderbyn twf, mae angen i'r FfDC fod yn fwy eglur yn nhermau materion megis ffyrdd, dŵr, trydan, nwy, digidol, seilwaith gwefru cerbydau trydan, ysgolion o faint a safon ddigonol, ysbytai, meddygfeydd, deintyddfeydd ac ati, yr holl bethau sydd eu hangen i fodloni anghenion poblogaeth sy'n tyfu ac economi sy'n datblygu dros yr ugain mlynedd nesaf a'r tu hwnt.

**4.4. Sylwadau'n ymwneud â Strategaeth Ofodol y FfDC**

4.4.1 Nid yw'r FfDC drafft yn cymryd y cyfle i roi cyfarwyddyd i'r lefelau cynllun datblygu sy'n is na'r FfDC (h.y. CDS a CDLl) ond hefyd mae'n methu'r cyfle i gysylltu â gweledigaethau ac agendâu twf rhanbarthol clir, megis y weledigaeth gref am uchelgais economaidd sydd gennym yma yn y Gogledd. Byddai cydnabod y cysylltiadau hyn wedi rhoi fframwaith ystyrlon i ddiffinio ystod a chyd-destun CDS ar y lefel nesaf i lawr.

4.4.2 Yng nghyd-destun y Gogledd, ymddengys hefyd bod peth gwrthdaro rhwng cydnabod y gwaith sydd wedi bod yn digwydd ers peth amser yn diffinio'r Weledigaeth Twf ar y cyd drwy'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, elfennau buddsoddi mewn seilwaith sydd eisoes yn cael eu cefnogi gan gyllid y Llywodraeth, a'r ffaith fod 'Glannau Dyfrdwy' a Wrecsam wedi'i dynodi'n ardal twf blaenoriaeth yn y FfDC. Hefyd, mae diffyg cydnabyddiaeth i bwysigrwydd y berthynas economaidd drawsffiniol sy'n bodoli gyda Chynghrair Merswy Dyfrdwy, er enghraifft. Er y cyfeirir at rôl i drefi arfordirol rhwng Caernarfon a Phrestatyn, mae diffyg eglurder ynghylch yr hyn y mae'r FfDC yn ceisio'i ddweud ynghylch blaenoriaethau i'r rhanbarth a pha rannau o'r rhanbarth fydd yn cyfrannu ym mha ffordd? Er enghraifft:

- Beth yn union a olygir gan 'Glannau Dyfrdwy' gan fod y map Strategaeth Ofodol yn adnabod y rhan fwyaf o Sir y Fflint? A yw'r FfDC yn golygu gogledd-ddwyrain Sir y Fflint mewn gwirionedd?
- Ar y llaw arall, cyfeirir at Wrecsam yn ei gyfanrwydd er gwaethaf goruchafiaeth Tref Wrecsam a threfi dibynnol cyfagos ac ardaloedd diwydiannol, a lle mae ardal wledig fawr sydd â photensial cyfyngedig i dyfu?
- Gyda lefelau isel o angen am dai wedi'u hadnabod ar gyfer y Gogledd yn y FfDC drafft, ymhle dylid darparu'r tai yma a sut mae hyn yn berthnasol i ffocws ar dwf sydd wedi'i amlinellu yn y FfDC, neu dwf sydd wedi'i gynllunio mewn CDLlau a darpariaeth tai i gefnogi uchelgais economaidd yr ardal, a'r hyn sy'n digwydd yn yr Awdurdodau Lleol eraill yn y Gogledd nad ydynt yn ardal twf arfaethedig gogledd-ddwyrain Cymru?
- O gofio bod gogledd-ddwyrain Cymru wedi'i hadnabod fel ardal twf blaenoriaeth, a fyddai diffinio Llain Las estynedig ar y ffin gyda Lloegr yn wrthreddfol i'r uchelgais twf hir dymor hwn?
- Yr angen i gydnabod amrywiaeth y Gogledd, sydd ar yr un llaw yn wledig yn bennaf a llawer ohono angen ei ddiogelu, ond, ar y llaw arall, sicrhau y lledaenir datblygiad economaidd ledled y rhanbarth yn cynnwys o fewn ein cymunedau gwledig a'u gwasanaethu h.y. datblygiad cynaliadwy sy'n cydnabod yr angen i gynnal a chefnogi ein cymunedau gwledig.

**4.5. Sylwadau ar y polisïau FfDC penodol a'u heffaith ar ranbarth y Gogledd**

**4.5.1 Polisïau 1, 2 a 3 - Twf Trefol Cynaliadwy; Cefnogi Canolfannau Trefol a Buddsoddiad Cyhoeddus, Adeiladau Cyhoeddus a Thir Cyhoeddus**

Mae'r tri pholisi hyn yn atgyfnerthu uchelgais diweddar Llywodraeth Cymru "Canol Trefi Gyntaf" o gyfeirio datblygiad priodol tuag at ganolfannau trefol i ddechrau ac annog y sector cyhoeddus i ymyrryd wrth ddwyn y safleoedd hyn ymlaen. Dylid gwneud hyn mewn modd rhesymegol, gan gydnabod nad yw safleoedd trefol heb eu cyfyngiadau ac mai dim ond mewn ardaloedd lle gall y seilwaith ei amsugno y dylai datblygiad ddigwydd.

**4.5.2 Polisi 4 - Cefnogi Cymunedau Gwledig**

Er bod bwriad da i'r polisi FfDC hwn, nid yw'n cynnwys diffiniad penodol o'r hyn y mae 'gwledig' yn ei olygu, gan adael i gynlluniau ar lefel is wneud hyn yn hytrach. Felly, nid yw'n eglur pa raddfa o dref neu gymuned wledig y teimla'r FfDC sy'n gynaliadwy i dderbyn twf, o ba fath ac ar ba raddfa.

Nid oes cydnabyddiaeth i'r ffaith fod colli cyfleusterau sydd eisoes wedi digwydd dros amser mewn nifer o gyd-destunau gwledig (siopau pentref, ysgolion, tafarndai, banciau/swyddfeydd post ac ati) eisoes wedi gwneud nifer o bentrefi a chymunedau gwledig yn anghynaladwy yn nhermau lleoli twf, ac mae angen profi'r cynnig y bydd hwyluso twf yn arwain at ddychwelyd y cyfleusterau hyn ac mae'n bosib y bydd angen cefnogaeth y llywodraeth. Nid yw'n ymddangos bod cysylltiadau digonol wedi'u llunio ar draws polisïau 2 i 4 yn y FfDC sy'n egluro mewn unrhyw synnwyr hierarchaeth naill ai'r berthynas ofodol rhwng 'trefol' a 'gwledig' neu'r lefelau amrywiol o gynaliadwyedd i dderbyn twf a datblygiad.

**4.5.3 Polisi 5 - Cyflenwi Cartrefi Fforddiadwy**

Er y cefnogir yr egwyddor o ddarparu rhagor o gartrefi fforddiadwy drwy'r system cynllunio, ymddengys nad yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai dim ond un o sawl ffordd o sicrhau tai fforddiadwy yw cynllunio. Dylai fod yn gliriach pa rôl sydd gan y system cynllunio mewn perthynas â ffynonellau eraill megis gwaith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, rheolaeth Awdurdodau Lleol o'u stoc tai eu hunain, ynghyd â chynlluniau rhagweithiol megis y Cynghorau'n adeiladu eu cartrefi eu hunain. Pan fo'r FfDC yn cyfeirio at 'newid yn y model cyflenwi' i gyflenwi rhagor o gartrefi, nid yw'n egluro wedyn yr hyn y mae hyn yn ei olygu na sut a phryd caiff hyn ei weithredu. Yn yr un modd, tra bod y polisi FfDC yn nodi "sicrhau bod arian ar gyfer cartrefi fforddiadwy yn cael ei ddynodi a'i ddefnyddio'n effeithiol" nid yw'n nodi pa arian. A yw'n gyllid newydd gan Lywodraeth Cymru ac, os felly, beth, sut a phryd caiff hyn ei ddarparu neu a oes disgwyl i'r datblygwyr preifat "dalu"? Mae'r ail ddull hwn yn achosi problemau hyfywedd yn arbennig y tu allan i'r dinasoedd a'r trefi mwy. Mae hyn yn bell o fod yn ddull gweithredu strategol i'r cynnydd o gyflenwi cartrefi fforddiadwy yn y Gogledd neu yng Nghymru yn ei chyfanrwydd. Yn wahanol i CDLl Cyngor, sydd wedi gorfod ymgymryd ag asesiad hyfywedd manwl i bennu'r lefelau o dai fforddiadwy cyflawnadwy a hyfyw o fewn y cynllun, ymddengys bod diffyg tystiolaeth empirig debyg i gefnogi'r lefelau angen fforddiadwy sydd wedi'u nodi yn y FfDC. Mae nifer o astudiaethau hyfywedd cynghorau'r Gogledd yn dangos, er enghraifft, na fyddai polisi yn gofyn am hyd at 20% o dai fforddiadwy (heb sôn am y 50% a awgrymir yn y FfDC) yn ei ddynodiadau CDLl, yn hyfyw yn y rhan fwyaf os nad yr holl ddynodiadau.

**4.5.4 Polisi 6 - Cynllunio mewn Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol**

Nid yw'n glir sut na phryd caiff y Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol eu hadnabod na'u hymgorffori yn y FfDC a pha opsiwn ar gyfer craffu a gânt yn benodol lle gallant achosi gwrthdaro mewn ardaloedd sensitif megis y Parciau Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

**4.5.5 Polisi 7 - Cerbydau Allyriadau Isel Iawn**

Mae trafodaethau gyda Scottish Power Energy Networks ynghylch capasiti seilwaith mewn perthynas â derbyn twf CDLl a pholisïau eraill megis annog pwyntiau gwefru cerbydau drwy bolisi PC5, wedi amlinellu bod problem sylfaenol ynghylch uwchraddio seilwaith y grid, domestig a masnachol, cyn gellid ystyried cyflwyno pwyntiau gwefru cerbydau o ddifri. Fodd bynnag, nid oes amserlen ar gyfer hyn na dealltwriaeth ynghylch sut caiff hyn ei ariannu. Pa gydweithio sydd wedi bod rhwng y FfDC a'r darparwyr pŵer i bennu'r dull gweithredu strategol cenedlaethol i ddarparu'r seilwaith hwn?

**4.5.6 Polisi 8 - Fframwaith strategol ar gyfer gwella bioamrywiaeth a sicrhau bod ecosystemau yn wydn**

Er bod y bwriad yn dda ac fe'i cefnogir mewn egwyddor, mae'r polisi yn dibynnu ar bethau nad ydynt wedi'u rhoi yn eu lle eto e.e. Datganiadau Ardal. Mae angen gwell eglurder a chydweithio o

safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau y darperir y fframwaith angenrheidiol ar gyfer CDSau a CDLlau yn y dyfodol i roi sylw i'r bwriadau y tu ôl i'r bwriad hwn a rhai eraill tebyg ym mholisi'r FfDC.

**4.5.7 Polisïau Ynni Adnewyddadwy 10-13**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol i gynhyrchu 70% o ddefnydd trydan o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2030. Mae polisïau 10-13 y FfDC yn ymwneud â datblygu technolegau ynni adnewyddadwy. Y flaenoriaeth ofodol yw i ddatblygiadau gwynt a solar ar raddfa fawr gael eu cyfeirio tuag at ardaloedd blaenoriaeth fel y dangosir ar y map 'Ardaloedd Blaenoriaeth Ynni Cymru' (gweler isod). Fe wnaeth adolygiad o'r effaith weledol ac ar y dirwedd adnabod yr ardaloedd blaenoriaeth fel y lleoliadau mwyaf priodol i dderbyn newid i'r dirwedd. Mae'r FfDC yn nodi nad yw datblygiad ynni solar a gwynt y tir ar raddfa fawr yn dderbyniol o fewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

Mae'r ardaloedd blaenoriaeth sydd wedi'u hadnabod ar gyfer gwynt a solar wedi'u cyffredinoli ac mae hi'n anodd dehongli eu graddau penodol o'r map yn y FfDC. Hefyd, mae hi'n anodd deall y broses a ddefnyddir i adnabod yr ardaloedd hyn neu a ydynt wedi dilyn y dull gweithredu Pecyn Cymorth a awgrymir ar gyfer Asesiadau Ynni Adnewyddadwy ym Mholisi Cynllunio Cymru, i gefnogi polisïau'r CDLl ar ynni adnewyddadwy. Mae hi'n bryder na chymerir unrhyw ystyriaeth o'r effaith negyddol bosib y gallai datblygiadau adnewyddadwy ei chael yn gyfagos neu o fewn lleoliadau ardaloedd sensitif megis AHNE neu Barc Cenedlaethol Eryri. Ymddengys bod lefel y manylder sydd wedi'i chynnwys o fewn polisïau 10 ac 11 yn gwrthddweud natur strategol y FfDC ac maent yn debycach i bolisïau sy'n seiliedig ar feini prawf rheolaeth datblygu manwl a geir mewn CDLlau. O ystyried lefel yr asesiad sydd ei hangen gan yr amrywiol faterion i arddangos addasrwydd neu gydymffurfiaeth, ac er eu bod yn ofynion dealladwy i bennu cynaliadwyedd, ymddengys bod y gofynion hyn yn gwrthddweud y datganiad cyffredinol bod "rhagdybiaeth o blaid datblygu ar gyfer y cynlluniau hyn ac, o ganlyniad, derbynnir egwyddor newid tirwedd" o fewn yr ardaloedd blaenoriaeth. Pan fo angen asesiadau manwl o'r fath gan y meini prawf sydd i ddilyn, mae ymhlygiad nad ydynt wedi'u gweithredu i lefel ddigonol wrth ddiffinio'r ardaloedd blaenoriaeth.

**4.6. Y Rhanbarthau**

4.6.1 Mae'r FfDC yn adnabod tri rhanbarth yng Nghymru:

- Gogledd Cymru
- Canolbarth a De-orllewin Cymru
- De-ddwyrain Cymru

**4.7. Mae'r polisïau a ganlyn yn cyfeirio'n benodol ar ranbarth y Gogledd**

**4.7.1 Polisi 17 - Wrecsam a Glannau Dyfrdwy**

O sylwadau cynharach yn ymwneud â'r strategaeth ofodol, mae ansicrwydd ynghylch beth a olygir gan 'Glannau Dyfrdwy' oherwydd yng nghyd-destun Sir y Fflint mae hyn yn lleihau'r cyfraniad ehangach y mae nifer o ardaloedd o fewn Sir y Fflint yn ei wneud tuag at ffyniant economaidd y Sir a'r isranbarth. Mae hyn yn wahanol i'r cyfeiriad at Wrecsam yn ei gyfanrwydd lle mae ei gyfraniad o bosib yn canolbwyntio mwy yn nhermau'r brif dref a'r aneddiadau dibynnol a'r ardaloedd diwydiannol.

Yr hyn sydd hefyd yn aneglur yw bod y FfDC yn rhoi gymaint o bwysau ar 'Glannau Dyfrdwy a Wrecsam' yn ffocws ar gyfer twf, ond nid yw'n egluro beth fyddai rôl gweddill ardaloedd rhanbarth y Gogledd. Nid yw hyn yn helpu i osod unrhyw gyd-destun neu ganllaw ar gyfer datblygu CDS ac

mae'n gyfle sydd wedi'i golli i gydnabod cyfraniad y rhanbarth ehangach, ynghyd ag adnabod y materion rhanbarthol y gellir mynd i'r afael â nhw drwy CDS. Ymddengys bod hyn hefyd yn wahanol i gynlluniau'r Bwrdd Uchelgais drwy'r Strategaeth Uchelgais Economaidd sydd wedi'i mabwysiadu a'r Cynllun Twf sydd ar ddod i rannu twf ledled y rhanbarth drwy ddatblygu cynaliadwy gan adlewyrchu natur wledig yn bennaf ein hamgylchedd a'n cymunedau.

Er bod y FfDC yn crybwyll blaenoriaethau ar gyfer twf, mae ei ddull o adnabod anghenion tai nad ydynt wedi'u bodloni ond eto ddim yn meintioli'r mathau o lefelau twf sydd eu hangen i fod yn uchelgeisiol a chefnogi datblygiad economaidd, yn anghyson. Nid yw'r FfDC yn rhagnodol mewn perthynas â thwf economaidd a fyddai'n cynorthwyo gyda datblygu CDS rhanbarthol, yn hytrach mae'n canolbwyntio ar un agwedd benodol o fodloni anghenion tai ac yn benodol anghenion fforddiadwy. Dylai bod ffocws llawer mwy cynhwysfawr a strategol i FfDC na thai fforddiadwy yn unig, sydd, er ei fod yn cael ei gydnabod yn flaenoriaeth allweddol, ddim yn cael ei egluro'n iawn yn nhermau naill ai'r newid sydd ei angen i gyflawni mwy, neu sut caiff hyn ei gefnogi a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru (gweler y sylwadau yn ymwneud â Pholisi 5 - para 4.5.3). Hefyd, byddai wedi bod yn fwy strategol i fod wedi ystyried twf economaidd fel y gyrrwr allweddol lle mae tai yn rhan bwysig o'r seilwaith cefnogol i helpu i gefnogi newid economaidd a chyflawni twf a swyddi.

Yn ogystal, mae'r FfDC yn dawedog ynghylch unrhyw ffurf ar ddull gweithredu Strategaeth Datblygu Gwledig i ardaloedd gwledig mawr y rhanbarth a all hefyd, mewn modd cytbwys a chynaliadwy, wneud cyfraniadau pwysig i dwf, datblygiad, ffyniant economaidd a llesiant.

### 4.7.2 Polisi 18 - Twf a reolir o Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru

Un mater amlwg gyda ffocws o'r fath ar ardaloedd trefol arfordirol ar gyfer 'twf a reolir' yw'r mater o risg llifogydd a sut mae hyn wedi'i ystyried wrth gyflwyno'r dull polisi hwn. Hefyd, sut caiff "trefi arfordirol" eu diffinio? e.e. Mae Llandudno yn amlwg yn dref arfordirol, a yw Abergele neu Fodelwyddan yn cael eu hystyried yn "drefi arfordirol"? Bydd materion yn ymwneud â datblygiad a risg llifogydd yn cael eu cyfyngu ymhellach os mai ffocws yr adolygiad o TAN15 yw cyfyngu datblygiadau mewn ardaloedd risg llifogydd ymhellach. Hefyd, mae ystyriaeth aneglur ynghylch cynaliadwyedd y dull hwn yn nhermau meysydd megis seilwaith trafnidiaeth a chysylltedd i gefnogi'r strategaeth hon, ynghyd â'r rôl y mae aneddiadau mewndirol allweddol yn eu chwarae ar hyn o bryd yn y CDLlau gwahanol, ond lle mae'r FfDC yn dawedog ar y rôl y dylent barhau i'w chwarae.

### 4.7.3 Polisi 19 - Lleiniau Glas yng Ngogledd Cymru

Mae hi'n aneglur pam fod Llywodraeth Cymru bellach wedi gwneud datganiad mor glir i gefnogi Lleiniau Glas yn rhanbarth y Gogledd, yn benodol wrth ragnodi bod "rhaid" i'r ardal i'r gogledd-ddwyrain o Wrecsam gael llain las. Mae'r rhan fwyaf os nad yr holl CDLlau yn y rhanbarth wedi dilyn Polisi Cynllunio Cymru ac wedi defnyddio ffurf ar ddull lletem las neu rwystr glas i reoli ffurf drefol, a'r canlyniad amlwg o symud i fod o blaid lleiniau glas yw graddau'r perfformiad y mae eu dynodiad yn cadarnhau wedi hynny. Ymddengys hefyd bod yr egwyddor yn gwrthddweud adnabod 'Glannau Dyfrdwy a Wrecsam' fel ffocws rhanbarthol ar gyfer twf strategol.

### 4.7.4 Polisi 20 - Porthladd Caergybi

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llwyr y rôl ryngwladol y mae Porthladd Caergybi yn ei chwarae. Mae angen newid y FfDC i adlewyrchu pwysigrwydd y porthladd yn y cyd-destun hwnnw. Mae hyn yn amlwg yn berthnasol i'r Cynllun Twf sydd ar ddod.

### 4.7.4 Polisi 21 - Cysylltiadau Trafnidiaeth â Gogledd-orllewin Lloegr

Nid oes cyfeiriad at yr angen i fuddsoddi a gwella seilwaith trafnidiaeth rhyngranbarthol a mewn-ranbarthol a hefyd, er yr ymddengys bod y ffocws ar wella cysylltedd ar draws y ffin â Lloegr, nid yw'n glir pa flaenoriaeth a roddir i wella cysylltiadau gogledd-de gyda Chymru. Mae'r diffyg pwyslais ar yr angen i wella cysylltiadau o'r Gogledd i Gaerdydd, Abertawe a phrif drefi'r De yn gyfle wedi'i golli yn y FfDC drafft.

**4.7.6 Polisi 22 - Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni**

Tra bod y FfDC yn cydnabod potensial y rhanbarth ar gyfer diwydiant niwclear bywiog, mae'n tan-chwarae'r rôl y gall niwclear ei chwarae fel ffynhonnell ynni carbon isel, yn arbennig ar adeg pan fo Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd yn ddiweddar.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Nod y FfDC yw cynyddu ffyniant a lleihau anghydraddoldeb yng Nghymru. Mae'r FfDC yn ceisio cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol o 10% erbyn 2050 drwy sicrhau bod cymunedau Cymraeg eu hiaith y Gogledd-orllewin yn parhau i ffynnu.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Wedi'i ymgymryd â holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais drwy waith y Grŵp Gweithredol.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Dolen i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/Drafft%20y%20Fframwaith%20Datblygu%20Cenedlaethol.pdf |
| **Atodiad 2** | Ymateb arfaethedig y Bwrdd Uchelgais i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Mae'r Ffrawmwaith Datblygu Cenedlaethol yn ffurfio rhan o'r fframwaith o gynlluniau datblygu dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. O'r canlyniad mae'n ddogfen o arwyddocad

uchel a thymor hir ac o berthnased rhanbarthol penodol. Gan gydnabod ei swyddogaeth fel corff arweiniol ar gyfer datblygu'r rhanbarth mae'n briodol fod y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn gallu darparu ymateb i'r ymgynghoriad."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Nodaf fod rhan 4.1.2 o'r adroddiad yn cyfeirio at Gynlluniau Datblygu Strategol, ond nid yw ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn datgelu os bydd adnoddau ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol baratoi'r Cynlluniau Datblygu Strategol."

**ATODIAD 2**

**Ymateb drafft i'w anfon ar ran y Bwrdd Uchelgais:**

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn diolch i Lywodraeth Cymru am roi'r cyfle i roi sylwadau ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft. Mae'r materion a ganlyn wedi'u codi gan y Bwrdd Uchelgais mewn perthynas â'r FfDC:

> Mae'r Bwrdd Uchelgais yn bryderus nad yw'r FfDC yn adlewyrchu'n gywir weledigaeth ofodol y Bwrdd ar gyfer twf yn y rhanbarth. Yn benodol, mae'r FfDC yn rhoi cyfrifoldeb diangen ar gyfradd y twf economaidd y dylid cynllunio ar ei chyfer yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, heb fawr ddim darpariaeth ar gyfer twf yng ngweddill y rhanbarth. Mae hyn yn groes i'r Strategaeth Uchelgais Economaidd sydd wedi'i mabwysiadu gan y Bwrdd Uchelgais a'r Cynllun Twf sydd ar ddod gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio rhoi dosbarthiad mwy cyfartal o dwf ledled y rhanbarth, gan gydnabod amrywiaeth y rhanbarth a'r ardal wledig sylweddol, sydd angen twf cynaliadwy ar gyfer ei gymunedau.
>
> Dylai'r FfDC fod yn fwy eglur ynghylch lle ceir hyd i'r dystiolaeth i gefnogi ei bolisïau a'i strategaeth.

1. Mae angen darparu eglurder mewn perthynas â tharddiad y ffigyrau rhagfynegiad tai ar gyfer y Gogledd a sut bwriedir defnyddio'r rhain mewn Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol yn y dyfodol. Yn ogystal, dylai Llywodraeth Cymru egluro sut mae'n disgwyl cyflawni'r uchelgais o ddarparu 51% o'r holl gartrefi fel rhai fforddiadwy yn y pum mlynedd nesaf. Credwn nad yw ffigwr o'r fath yn hyfyw os yw am gael ei gyflawni drwy'r broses cynllunio h.y. bydd gofyn o'r fath yn atal/rhwystro llawer o ddatblygiadau ledled y rhanbarth.

2. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu eglurder ar unwaith ynghylch pa bwysau y dylid ei roi ar y FfDC sydd ar ddod cyn iddo gael ei fabwysiadu ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol yn eu penderfyniadau rheolaeth datblygu a ffurfio polisïau.

3. Dylai'r FfDC gydnabod ac adlewyrchu dylanwad y Strategaethau Economaidd Rhanbarthol sydd ar ddod a sicrhau bod y ddwy ddogfen yn gyson â'i gilydd ac yn cyd-fynd â'i gilydd. Yr hyn sydd o bryder arbennig yw diffyg cydnabyddiaeth o'n Strategaeth Uchelgais Economaidd ein hunain a'r Cynllun Twf sydd ar ddod.

4. Dylai Llywodraeth Cymru roi gwell eglurder ar y rôl y dylai'r ardaloedd gwledig eang a'r cymunedau sy'n gwasanaethu'r ardaloedd gwledig hynny yn y Gogledd (e.e. y trefi a'r pentrefi), yn cynnwys AHNE a Pharc Cenedlaethol Eryri, ei chwarae wrth fodloni amcanion y FfDC.

5. Dylai'r FfDC gyfeirio'n benodol at y rôl y dylai Caergybi ei chwarae fel Canolfan Twf Ranbarthol gan ei fod yn borth sy'n cysylltu'r Gogledd gydag Iwerddon ac mae o bwys allweddol i wasanaethu'r rhanbarth a'r DU yn ei chyfanrwydd.

6. Dylai Llywodraeth Cymru egluro o fewn y FfDC y rôl y dylai'r diwydiant niwclear ei chwarae wrth fodloni gofynion ynni Cymru yn y dyfodol ac i ba raddau y bydd cyfleusterau o fewn y Gogledd yn cyflenwi'r genedl. Gan fod Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd, mae'r angen am ragor o ynni carbon isel wedi cynyddu a dylid ail-ymweld â'r rôl y gallai niwclear ei chwarae wrth fodloni'r angen hwnnw, a'i hegluro.

7. Dylai'r FfDC ddarparu gwell eglurder ar sut caiff y Gymraeg ei gwarchod, ei chryfhau a'i datblygu o fewn rhanbarth y Gogledd.

8. Tra nodir cefnogaeth y FfDC ar gyfer twf a reolir o drefi arfordirol y rhanbarth, dylai'r FfDC gydnabod a rhoi sylw i'r cyfyngiadau i ddatblygu sydd eisoes yn bodoli yn yr aneddiadau hynny e.e. risg llifogydd arfordirol/llifwaddodol, neu'r diffyg seilwaith ffisegol a digidol hanfodol. Mae angen diffiniad cliriach o'r hyn yw "tref arfordirol" gan nad yw rhai o'r ardaloedd twf posib yn y rhanbarth "ar" yr arfordir ond yn agos iddo.

9. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cydnabod y rôl y gall technolegau adnewyddadwy ei chwarae wrth fodloni anghenion ynni'r genedl, ond dylid mireinio ymhellach ymagwedd y FfDC ar y mater hwn a hyrwyddo Ardaloedd Blaenoriaeth Gwynt a Solar. Dylai'r FfDC adlewyrchu a chydnabod yr effaith y gall datblygiad ynni adnewyddadwy ei chael ar dirweddau sensitif (e.e. Parciau Cenedlaethol a AHNE) hyd yn oed pan fydd wedi'i leoli y tu allan i'r ardaloedd hynny. Dylid ymgymryd â gwell eglurder a mireinio pellach o'r Ardaloedd Blaenoriaeth cyn i'r FfDC gael ei fabwysiadu oherwydd teimlir bod yr Ardaloedd yn rhy eang yn y Gogledd.

10. Dylai'r FfDC egluro pa seilwaith grid newydd neu wedi'i atgyfnerthu sydd ei angen er mwyn dwyn datblygiadau adnewyddadwy ymlaen o fewn yr Ardaloedd Blaenoriaeth sydd wedi'u hadnabod.

11. Tra bod y FfDC yn cydnabod bod cysylltiadau trafnidiaeth Gogledd - De strategol yn cyfyngu twf, nid yw'n gwneud cynigion mewn perthynas â sut a phryd y dylai'r rhain gael eu gwella. Dylid rhoi sylw i hyn yn fersiwn terfynol y FfDC.

12. Yn yr un modd, dylai'r FfDC gyfeirio at brosiectau trafnidiaeth strategol (e.e. y drydedd bont dros y Fenai a Metro Gogledd Cymru) a sut allant sicrhau bod trafnidiaeth ar hyd coridor y Gogledd (o Wrecsam i Gaergybi) yn effeithiol ac yn rhoi gwell mynediad i swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau wrth hyrwyddo gwell cysylltiadau ledled ac ar hyd y rhanbarth hwnnw.

13. Dylai'r FfDC wneud datganiad clir ar sut bydd gofynion seilwaith cyffredinol yn cael eu darparu/hariannu dros yr ugain mlynedd nesaf a'r tu hwnt er mwyn cefnogi twf e.e. sut fydd seilwaith digonol megis ffyrdd, dŵr, trydan, nwy, digidol, seilwaith gwefru cerbydau trydan, ysgolion o faint a safon ddigonol, ysbytai, meddygfeydd, deintyddfeydd ac ati, yn cael eu hariannu.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y sylwadau uchod gan y Bwrdd Uchelgais a'u hadlewyrchu nhw yn fersiwn terfynol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Byddai'r Bwrdd Uchelgais yn hapus i egluro unrhyw rai o'r sylwadau uchod i Lywodraeth Cymru, pe byddai angen.